**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL**

**(MEMORANDWM RHIF 2)**

## Y Bil Cynlluniau Pensiwn

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth berthnasol o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Cynlluniau Pensiwn yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Mehefin 2025. Gellir dod o hyd i'r Bil, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin i Dŷ'r Arglwyddi, yn: Y Bil Cynlluniau Pensiwn. Mae Rhan 1, Pennod 1 o'r Bil yn ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

3. Gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 26 Mehefin 2025: lcm-ld17261-cy.pdf.

## Amcanion polisi

4. Mae amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU wedi eu nodi yn adran trosolwg y Nodiadau Esboniadol a luniwyd ar gyfer cyflwyno'r Bil. Yn gryno:

- Nod y Bil Cynlluniau Pensiwn yw cryfhau buddsoddiad pensiwn drwy ganlyniadau gwell a mwy o werth mewn cynlluniau pensiwn sector preifat, gan gynyddu'r swm sydd ar gael i aelodau'r cynlluniau hynny. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cydgrynhoi yn y farchnad pensiynau, yn canolbwyntio ar werth a chanlyniadau i aelodau ac yn galluogi cynlluniau pensiwn i fuddsoddi mewn ystod ehangach o asedau.

- Bydd Pennod 1 o Ran 1 o'r Bil yn galluogi diwygiadau i reoli buddsoddiadau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (y Cynllun) yng Nghymru a Lloegr. Nod y diwygiadau hyn yw sicrhau bod rheoli buddsoddiadau'r Cynllun hwn yn darparu'r manteision maint yn llawn, gan gynnwys mwy o arbenigedd, gwell gwerth am arian a gwell gwydnwch.

## Crynodeb o'r Bil

5. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol uchod, sy'n dal yn gywir.

## Y diweddaraf am y sefyllfa ers gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 26 Mehefin 2025

6. Cyflwynwyd gwelliannau gan y Llywodraeth ar 1 Rhagfyr 2025. Aseswyd bod un gwelliant yn rhoi sylw i faterion datganoledig, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer.

7. Mae saith gwelliant arall sy'n ymwneud ag “administering authorities” (“awdurdodau gweinyddol”) y Cynllun gan gynnwys y rhai hynny yng Nghymru. Mae'r rhain yn gwneud gwelliannau technegol i gymalau a oedd yn destun y

memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf. Er nad yw'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf, rwy'n tynnu sylw'r Senedd atynt er tryloywder.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 1 Rhagfyr 2025 nad oes angen cydsyniad ar eu cyfer**

8. Mae wyth o awdurdodau gweinyddol y Cynllun yn awdurdodau Cymreig datganoledig.

9. Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 yn darparu bod rhaid i awdurdodau gweinyddol, a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 3, gynnal cronfa bensiwn ar gyfer y Cynllun.[1] Maent yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r Cynllun ar gyfer eu hardal. Mae Atodlen 3 yn nodi bod Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Powys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn awdurdodau gweinyddol. Cyfeirir at yr awdurdodau gweinyddol hefyd fel ‘scheme managers’ (‘rheolwyr cynlluniau’). Mae llywodraeth leol yn faes datganoledig yn gyffredinol, ac mae cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yn awdurdodau Cymreig datganoledig (Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

10. Nid yw'r gwelliannau canlynol gan Lywodraeth y DU yn rhoi, yn dileu nac yn addasu unrhyw rai o swyddogaethau'r awdurdodau Cymreig datganoledig. Nid ydynt yn newid y sefyllfa fel y'i nodir yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd ar 26 Mehefin 2025.

11. Mae'r gwelliannau yn galluogi Gweinidogion yr Alban i arfer pwerau mewn cysylltiad â'r Cynllun yn yr Alban, yn dileu'r cyfeiriad at ‘for England and Wales’, yn rhoi ‘responsible authority’ yn lle ‘Secretary of State’, yn darparu diffiniad o ‘responsible authority’ ac yn cywiro rhif cymal. Mae'r gwelliannau hyn yng nghymalau 1, 2, 5 (cymal 4 yn flaenorol) a 6 (cymal 5 yn flaenorol).

**Cymal 1: Cwmnïau Pwll Asedau**

12. Mae'r cymal gwreiddiol yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o gwmnïau pwll asedau mewn cynlluniau pensiwn ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr (y Cynllun ar hyn o bryd). Mae'r gwelliannau yn mewnosod pŵer i'r ‘responsible authority’ (‘awdurdod cyfrifol’) (Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Lloegr) gyfarwyddo cwmni pwll asedau i gymryd camau mewn perthynas â chyfarwyddyd i reolwr cynllun gyfranogi, neu beidio â chyfranogi, mewn cwmni pwll asedau. Maent yn darparu bod rhaid i'r awdurdod cyfrifol ymgynghori wrth roi cyfarwyddyd neu ddyroddi canllawiau mewn perthynas â chyfranogiad mewn cwmni pwll asedau. Maent yn gwneud gwelliannau i'r diffiniad o ‘asset pool company’ (‘cwmni pwll asedau’) fel bod rhaid i gwmni o'r fath gael ei gyfyngu gan gyfranddaliadau a ddelir gan reolwyr cynlluniau yn unig a bod yn gofrestredig mewn unrhyw ran o'r DU, ac nad oes rhaid i'r prif ddibenion fod yn unig ddibenion y cwmni.

[1] Rheoliad 53 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013

**Cymal 2: Rheoli Asedau**

13. Mae'r cymal gwreiddiol yn darparu, pan fo rheoliadau cynllun a wneir o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ar gyfer y Cynllun yn gwneud darpariaeth am gwmnïau pwll asedau, bod rhaid iddynt gynnwys darpariaeth ynghylch rheoli cronfeydd ac asedau'r Cynllun hwnnw. Mae'r gwelliant pellach yn eithrio Asiantaeth yr Amgylchedd o'r gofyniad i gydweithredu â'r awdurdod strategol y mae ei ardal yn cwmpasu ardal y rheolwr cynllun (gan mai Lloegr gyfan yw ardal Asiantaeth yr Amgylchedd ac nid yw'r ddarpariaeth yn gweithio iddi).

**Cymal 3: Pwerau ychwanegol ar gyfer Rheolwyr Cynlluniau Penodol**

14. Mae'r cymal newydd hwn yn galluogi'r awdurdod cyfrifol (Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Lloegr) i gynnwys darpariaeth mewn rheoliadau cynllun sy'n rhoi i reolwr cynllun (mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau fel rheolwr cynllun) unrhyw rai o bwerau penodedig awdurdod lleol o dan Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau awdurdod lleol), a darpariaeth sy'n rhoi i reolwr cynllun bŵer i ddarparu unrhyw wasanaeth gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol ar gyfer rheolwr cynllun arall. Mae hyn er mwyn galluogi rhoi pwerau i awdurdodau gweinyddol y Cynllun yng Nghymru a Lloegr nad oes ganddynt y gyfres lawn o bwerau awdurdod lleol (megis awdurdodau pensiwn annibynnol) er mwyn dod â'u pwerau yn unol â'r rhai y gellir eu harfer gan eraill. Mae mewnosod y cymal hwn yn newid rhifau'r cymalau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer o dan femorandwm cydsyniad deddfwriaethol 26 Mehefin 2025 (lcm-ld17261-cy.pdf) i 1, 2, 5 a 6.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 1 Rhagfyr 2025 y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

15. Ystyrir bod y gwelliant gan Lywodraeth y DU i gymal 4 yn rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru fel ‘appropriate authority’ (‘awdurdod priodol’) o dan Ddeddf Caffael 2023.

16. Cymal o'r enw ‘exemption from public procurement rules’ (‘esemptiad rhag rheolau caffael cyhoeddus’) oedd cymal 3 gynt. Effaith y gwelliannau yw hepgor y cymal 3 gwreiddiol a'i ddisodli gyda darpariaeth newydd. Mae'r ddarpariaeth newydd, sef cymal 4 bellach, yn mewnosod paragraff 2A yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael 2023 (“Deddf 2023”). Mae Atodlen 2 yn nodi contractau nad ydynt yn gontractau cyhoeddus (h.y. sy'n esempt) at ddibenion y Ddeddf honno. Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf Caffael 2023 i sicrhau bod contractau rhwng awdurdodau gweinyddol y Cynllun a'u pyllau asedau o dan y Cynllun yng Nghymru a Lloegr i gynnal gweithgareddau rheoli buddsoddiadau yn dod o fewn cwmpas esemptiadau trefniadau fertigol y Ddeddf. Mae'r esemptiad trefniadau fertigol yn caniatáu i gontractau penodol gael eu dyfarnu heb gynnal proses gaffael pan fo'r berthynas i bob pwrpas yn un “fewnol”. Mae'r esemptiad yn rhoi pŵer i'r ‘awdurdod priodol’ i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch sut y dylid cyfrifo canran y gweithgareddau a gyflawnir gan gwmni pwll asedau at ddibenion yr amod yn is-baragraff (2)(a) o'r esemptiad. Bydd unrhyw reoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

**Y rheswm dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Cynlluniau Pensiwn**

17. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bwll pensiwn sefydledig sydd wedi bod yn gweithio i ddod â manteision maint i drefniant cynllun pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Bydd deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU yn galluogi parhau i ddatblygu pwll penodol i Gymru ac yn cryfhau'r manteision maint ymhellach, gan gynnwys mwy o arbenigedd, gwell gwerth am arian a gwell gwydnwch.

18. Mae'r Bil hwn yn ymdrin â materion a gedwir yn ôl, ond wrth wneud hynny, yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn ei alluogi i addasu swyddogaethau'r awdurdodau Cymreig datganoledig ac felly'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â materion datganoledig gan ei fod yn rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru yn uniongyrchol fel yr 'awdurdod priodol' o dan Ddeddf 2023. Am y rheswm hwn, mae'r Bil hwn gan y DU yn galluogi'r amcanion polisi i gael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac mae er budd gorau Cymru i gynnwys darpariaethau yn y Bil hwn.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

19. Nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi bod unrhyw ddarpariaethau a osodwyd ar 1 Rhagfyr yn rhai y mae cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**Barn Llywodraeth Cymru**

20. Yn fy marn i, y ddadl gryfaf yw bod cymal 4 yn rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau fel yr 'awdurdod priodol' o dan Ddeddf 2023 mewn perthynas â'r esemptiad fertigol sy'n benodol i'r Cynllun a fewnosodir yn y Ddeddf honno, ac ystyrir ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

**Casgliad**

21. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bwll pensiwn sefydledig sydd wedi bod yn gweithio i ddod â manteision maint i drefniant cynllun pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Bydd deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU yn galluogi parhau i ddatblygu pwll penodol i Gymru ac yn cryfhau'r manteision maint ymhellach, gan gynnwys mwy o arbenigedd, gwell gwerth am arian a gwell gwydnwch.

22. Rwy'n cefnogi'r Bil ac rwyf felly'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

**12 Chwefror 2026**